

Cyfarwyddwr Gweithredol

Pecyn Recriwti

Croeso o DASH!

Helo,

Croeso cynnes i DASH. Diolch i chi am feddwl am wneud cais am rôl Cyfarwyddwr Gweithredol. Rwy'n gobeithio y bydd ein pecyn recriwtio yn eich ysbrydoli i wneud cais ac i ymuno â mi i arwain DASH gyda'n gilydd.

Mae **DASH** wedi gwneud dros 20 mlynedd o waith pwysig ac mae cynrychiolaeth a chydweithredu wrth ein calon. Rydym wedi adeiladu partneriaethau ysbrydoledig a hir oes gyda rhai o'r prif orielau ac amgueddfeydd yn y DU, ac artistiaid a chynulleidfaoedd y celfyddydau sy'n Anabl, B/byddar a Niwrowahanol. Rydym yn sefyll ar yr ysgwyddau hyn wrth i ni ddechrau ein pennod nesaf.

Ces i fy mhenodi yn Brif Swyddog Gweithredol a Chyfarwyddwr Artistig yn 2023 ac rwy'n un o'r ychydig o arweinwyr Awtistaidd/ADHD yn y celfyddydau. Rwyf wrth fy modd fy mod yn arwain DASH yn ystod y cyfnod datblygu ac ehangu nesaf.

Mae ein hymagwedd wedi'i chynnal gan artistiaid ac ymchwil dan arweiniad gweithredu. Rydym yn gweithio ar sail amserlenni anabl, sy'n golygu bod ein cynhyrchiant a'n meddwl wedi'u cynnal dan awdurdodaeth hael o fewn systemau a chymdeithas gallu gwneud. Mae ein ymagwedd niwrogadarnhaol at ein gwaith yn caniatáu myfyrio parhaus a chynnal gofod seicolegol diogel i bawb.

Mae gennym waith cyffrous yn ystod y blynyddoedd nesaf trwy



ein 'Rhaglen Curaduron y Dyfodol', ein rhaglen meddwl yn feirniadol drawstoriadol, comisiynau artistiaid a'n gwaith newid systemau.

Rydym wedi ymrwymo i wir gael ein harwain gan bobl ag Anabledau ac yn gynrychioliadol o'n hartistiaid a'r bobl rydym yn gweithio gyda nhw. Mae'r rôl hon yn **agored i ymgeiswyr Anabl, Niwrowahanol a B/byddar yn unig**, sy'n greadigol, yn chwilfrydig, wedi ymgysylltu ac yn rhagweithiol.

Mae gwaith DASH yn gymhleth, yn bwrpasol, yn llawen ac yn greadigol. Gobeithiaf y byddwch chi'n ystyried ymuno â ni ar gyfer ein pennod nesaf.

Cofion cynnes,

Heather Peak

Artist/Prif Swyddog Gweithredol/Cyfarwyddwr Artistig (CEO/AD)



Chwarae fideo laith
Arwyddion Prydain (BSL)

Cyfarwyddwr Gweithredol



Mae DASH yn chwilio am Gyfarwyddwr Gweithredol i:

- **Arwain** ar ddatblygu a gweithredu ein gweithrediadau, systemau, polisiau a dangosyddion perfformiad.
- **Alluogi** a chefnogi timau trwy reoli prosiectau i gyflawni eu hamcanion.
- **Ddirprwyo** pan fo angen ar gyfer y Prif Swyddog Gweithredol/Cyfarwyddwr Artistig trwy ddarparu arweinyddiaeth a goruchwyliaeth lefel uwch.
- **Arwain** ar gynhyrchu incwm ar gyfer DASH trwy'r strategaeth codi arian ac incwm a enillir, gan greu'r cyflyrau y gall DASH ffynnu ynddynt.

Mae DASH yn elusen celfyddydau gweledol a arweinir gan bobl ag Anableddau gyda gweledigaeth ar gyfer byd lle mae Celfyddyd Anabledd yn cael ei werthfawrogi'n gyfartal. Dros yr 20 mlynedd diwethaf, ei genhadaeth yw effeithio ar newid yn y sector, chwalu rhwystrau rhag mynediad a sefydlu ymarfer y Celfyddydau Anabledd yn y brif ffrwd.

Mae DASH yn chwilio am arweinydd uchelgeisiol i weithio gyda'r Prif Swyddog Gweithredol/Cyfarwyddwr Artistig i drawsnewid a chyfrannu'n sylweddol at lunio lles strategol, artistig, gweithredol ac ariannol y cwmni.

Disgwylir iddynt hyrwyddo a chynnal diwylliant sefydliadol sy'n parhau i fod yn driw i'n gwerthoedd craidd o chwilfrydedd, ymddiriedaeth, dysgu, creadigrwydd, cynrychiolaeth, cynaliadwyedd a chydreddoldeb.



Chwarae fideo laith
Arwyddion Prydain (BSL)

Y RÔL

Teitl y Swydd: Cyfarwyddwr Gweithredol

Yn atebol i'r: Prif Swyddog Gweithredol/Cyfarwyddwr Artistig (CEO/AD)

Cyflog: **£42,000** y flwyddyn
35 awr yr wythnos NEU


£33,600 y flwyddyn
28 awr yr wythnos

Contract: Parhaol
Amodau: Hyblyg, hybrid, gweithio fel tîm bob pythefnos wyneb
yn wyneb

Gwyliau: 25 diwrnod, ynghyd â gwyliau cyhoeddus
(pro-rata am 28 awr yr wythnos)

Gofynion y Swydd: Mae gennym ddiddordeb arbennig yn eich gallu, profiad a photensial, yn hytrach na'ch cymwysterau, felly nid oes unrhyw ofynion sylfaenol ffurfiol.

Byddai'n fuddiol cael profiad cadarnhaol a diweddar o arwain a chefnogi tîm a rhanddeiliaid yn llwyddiannus drwy newid sylweddol.



Chwarae fideo laith
Arwyddion Prydain (BSL)

Cyfrifoldebau

Arwain a Rheoli Elusen

- **Arwain** tîm DASH drwy weithio'n glòs â'r Prif Swyddog Gweithredol/Cyfarwyddwr Artistig a'r cyfrifwyr i reoli adnoddau ariannol y sefydliad, ei gyllidebu, a'i adroddiadau i sicrhau cyfrifoldeb, gwerth am arian a chynaliadwyedd.
- **Arwain** ar gynllunio cynaliadwyedd ariannol a throsolwg mewn partneriaeth â'r Prif Weithredwr/Cyfarwyddwr Artistig.
- **Goruchwyllo** cyflwyniadau'r Comisiwn Elusennau gan weithredu fel Ysgrifennydd y Cwmni, gan sicrhau cydymffurfiaeth ac atebolrwydd.
- **Adrodd** ar gynnydd gwaith, nodau, problemau a chyfluoedd eraill i'r Prif Swyddog Gweithredol/Cyfarwyddwr Artistig a Bwrdd yr Ymddiriedolwyr.
- **Sicrhau** cydymffurfiaeth â'r holl ddeddfwriaeth berthnasol fel cyflogwr ac elusen gofrestredig.
- **Meithrin** cydberthnasau cryf â'r Cadeirydd ac aelodau'r Bwrdd a chefnogi datblygiad a recriwtio'r Bwrdd, gydag archwiliadau sgiliau rheolaidd i lywio cynllunio. Cefnogi cynllunio olyniaeth ar gyfer rolau allweddol.
- **Rheoli** cyfarfodydd chwarterol y Bwrdd a chylchoedd is-bwyllgorau, paratoi papurau a chofnodion cyfarfodydd i sicrhau cydymffurfiaeth, atebolrwydd ac adrodd priodol. Gweithio ochr yn ochr â'r Prif Weithredwr/Cyfarwyddwr Artistig wrth osod agendâu.
- **Cymryd cyfrifoldeb cyffredinol** am reolaeth ariannol ym mhob maes o weithgaredd DASH, gan weithio'n glòs â'r Prif Weithredwr/Cyfarwyddwr Artistig, y Bwrdd, yr archwilwyr a'r cyfrifwyr.
- **Goruchwyllo** a chymell y staff - gan sefydlu diwylliant o gyfathrebu agored, cefnogaeth a gwaith tîm.
- **Sicrhau** bod hyfforddiant staff gorfodol yn cael ei ddiweddarau a sgiliau'n cael eu datblygu a bod staff yn cael eu galluogi yn eu datblygiad proffesiynol a'u hymarfer.
- **Cadw** at yr holl bolisiau a gweithdrefnau a chyfrannu'n weithredol atynt, gan gynnwys iechyd a diogelwch, cydraddoldeb a gwrth-hiliaeth, diogelu a chynaliadwyedd gyda'r Prif Weithredwr/Cyfarwyddwr Artistig yn cael yr wybodaeth ddiweddaraf am ddatblygiadau atebolrwydd ar draws y sector.



Chwarae fideo laith
Arwyddion Prydain (BSL)

Cyfrifoldebau

Codi Arian a Chynhyrchu Incwm

- **Arwain** datblygiad strategaeth codi arian, llif arian a cheisiadau DASH i sicrhau bod targedau cyllid craidd DASH yn cael eu cyflawni'n flynyddol a gweithgareddau codi arian rhaglennu, mewn cydweithrediad agos â'r Prif Swyddog Gweithredol/Cyfarwyddwr Artistig a'r tîm.
- **Cynnal a gwella** perthnasoedd â chyllidwyr allweddol gan gynnwys perthynas DASH â Chyngor Celfyddydau Lloegr (ACE) o ran cyllid craidd y Sefydliad Portffolio Cenedlaethol (NPO) a chyfleoedd strategol eraill.
- **Rheoli'r** adrodd a rheoli enw da mewn ffordd ragweithiol, a sicrhau bod gwaith DASH yn cyd-fynd â strategaeth ACE ac yn gosod DASH yn dda ar gyfer cylchoedd cynnig NPO yn y dyfodol y bydd y rôl hon yn cymryd cyfrifoldeb arweiniol amdanynt mewn cydweithrediad agos â'r Prif Swyddog Gweithredol/Cyfarwyddwr Artistig a'r Bwrdd.
- **Arwain** ar geisiadau codi arian craidd, gan ymchwilio, ysgrifennu a chyflwyno cynigion mewn modd amserol yn unol â strategaeth codi arian DASH.
- **Yn rhagweithiol** wrth nodi cyfleoedd ar gyfer cyllid (cyfyngedig ac anghyfyngedig) ar gyfer twf rhaglenni ac ar gyfer potensial incwm a enillir i sicrhau bod DASH yn cyflawni ei uchelgeisiau a'r cynnydd arfaethedig mewn cyfleoedd i gelfyddyd ac artistiaid anabl.
- **Cefnogi** gweithgareddau marchnata, ymgysylltu a chyfathrebu ar gyfer DASH.
- **Cynllunio, hwyluso a chofnodi** cyfarfodydd a sesiynau.
- **Ysgrifennu** cynlluniau, adroddiadau, cyflwyniadau a gwerthusiadau i gwrdd â gofynion y cyllidwyr.
- **Sefydlu** a chynnal prosesau gweinyddol, monitro a gwerthuso effeithiol.
- **Meithrin** amgylchedd gwaith positif a chefnogol bob amser.



Cyfrifoldebau

Cynllunio Busnes, Strategaeth a Gweithredu

- **Datblygu** a gweithredu strategaeth sefydliadol a strategaeth gyfathrebu DASH gyda'r Prif Weithredwr/Cyfarwyddwr Artistig, y Bwrdd a'r tîm i gyflawni'r weledigaeth artistig.
- **Creu** a chyflawni ein cynllun busnes, gan sicrhau bod DASH yn gweithredu fel busnes dichonadwy, atebol a chynaliadwy.
- **Goruchwyllo** a chefnogi'r rhaglen artistig, gan gynnwys prosiectau arwyddocaol gyda'r Prif Swyddog Gweithredol/Cyfarwyddwr Artistig i sicrhau bod adroddiadau a rheoli cyllidebau i gyllidwyr yn unol â gwerthoedd a safonau gweithredu DASH.
- **Creu** diwylliant gweithio cadarnhaol a chefnogi'r staff, gweithwyr cyswllt a thimau creadigol llawrydd yn eu cyfanwydd, gyda chyfrifoldebau rheoli llinell penodol ar gyfer y Cydlynnydd Ymgysylltu, Llyfrgellydd a cheidwad y cyfrifon.
- **Sicrhau** bod gan DASH y strwythur staff priodol i gyflawni'r anghenion a'r genhadaeth y cytunwyd arni â'r Bwrdd.
- **Datblygu** a chefnogi partneriaethau cydweithredol gyda'r celfyddydau neu sefydliadau eraill y gallai DASH ehangu ei uchelgeisiau artistig gyda nhw, yn genedlaethol ac yn rhyngwladol mewn cydweithrediad agos â'r Prif Swyddog Gweithredol/Cyfarwyddwr Artistig.
- **Datblygu** a chynnal perthnasoedd gwaith da i sicrhau bod DASH yn bartner rhagweithiol ac yn gyfrannwr o fewn gweithgareddau a thrafodaethau ehangach sy'n cyfrannu at fywyd diwylliannol y DU.
- **Sicrhau** bod rhaglenni DASH yn cael eu gwerthuso gyda thargedau clir, Dangosyddion Perfformiad Allweddol, fframweithiau theori newid a strwythurau atebol – gan adrodd ar yr hyn sy'n bwysig.



Chwarae fideo laith
Arwyddion Prydain (BSL)

Cyfrifoldebau

Effeithlonrwydd Gweithredol

- **Sicrhau** bod systemau cyfathrebu effeithiol a chynhwysol yn cael eu cynnal yn fewnol ac yn allanol.
- **Goruchwylio** recriwtio gan gynnwys ymwybyddiaeth o gyfleoedd cyfartal, hysbysebu a gweinyddu prosesau recriwtio.
- **Trefnu** hyfforddiant tîm cyfan.
- **Darganfod a mynychu** cyfarfodydd diwydiant a sector penodol, yn enwedig lle gellir cyflawni rôl eiriolaeth.
- **Arwain** a chadeirio cyfarfodydd tîm wythnosol yn ôl yr angen.
- **Cyfrannu** at ddigwyddiadau DASH yn ôl yr angen.
- **Ymgymryd** ag unrhyw dasgau eraill yn unol â chais rhesymol y Prif Weithredwr/Cyfarwyddwr Artistig.

Trawsnewidiad Gweithredol

- **Cynnal** adolygiad o'r holl brosesau gweithredu, polisiau, data ac adnoddau i sicrhau eu bod yn addas i'r diben.
- **Datblygu** a gweithredu strategaeth trawsnewid gweithrediadau, gan gynnwys staffio, defnyddio technoleg ac adnoddau eraill.
- **Sefydlu** amserlen flynyddol o weithgarwch gweithredol sy'n cwmpasu llywodraethu, caffael, hawliadau cyllid ac adrodd, cydymffurfiaeth statudol, adolygu polisi ac archwiliadau.



Chwarae fideo laith
Arwyddion Prydain (BSL)

Manyleb y Person



Rydym yn chwilio am rywun sy'n:

- Dangos angerdd a chwilfrydedd am y celfyddydau
- Ofalgar ac yn feddylgar yn eu dull gweithio
- Meddwl yn agored, yn barchus ac yn gynhwysol o syniadau
- Dangos ymrwymiad i gyfleoedd cyfartal
- Rhoi hawliau pobl anabl, B/byddar, Niwrowahanol a phobl â salwch cronig wrth galon eu hymarfer
- Angerddol am groestoriad celf a bywyd bob dydd
- Chwaraewr tîm ardderchog gyda'r gallu i weithio'n annibynnol ac ar ei liwt eu hun
- Gydweithredol ac yn addasu mewn gwahanol amgylcheddau gyda gwahanol bobl
- Rhwydweithio ac yn llunio'n rhagweithiol gyda sgiliau rhyngpersonol rhagorol
- Gallu gweithio'n hyblyg, blaenoriaethu tasgau a bodloni dyddiadau cau
- Gallu defnyddio TG, gan gynnwys rhaglenni Microsoft Office



Chwarae fideo laith
Arwyddion Prydain (BSL)

Profiad a Phriodoeddau Hanfodol

- **Profiad helaeth** mewn cynllunio strategol a busnes
- **Profiad** ym maes rheoli ac atebolrwydd elusennol/elusen
- **Yn fedrus** wrth reoli llif codi arian, mewn arwain codi arian a chyflawni yn erbyn targedau ariannol o ystod eang o ffynonellau gan gynnwys statudol, ymddiriedolaethau a sefydliadau, corfforaethau, partneriaethau a rhoddwyr unigol
- **Yn fedrus** wrth ddefnyddio data ariannol a data busnes arall i fonitro perfformiad a gosod nodau a rheoli twf a datblygiad o flwyddyn i flwyddyn
- **Yn drefnus iawn** gydag angerdd am sylw i fanylion ac effeithlonrwydd
- **Ardderchog** gyda sgiliau cyfathrebu a rheoli pobl
- **Ystwythder** wrth redeg nifer o brosiectau i safon uchel
- **Gwybodaeth gref** a chyfoes o TG a phrofiad o ddatblygu cronfeydd data



Chwarae fideo laith
Arwyddion Prydain (BSL)

Y Broses Cyflwyno Cais

Dyddiad cau: Dydd Llun 9 Medi, 10yb

I gyflwyno cais, anfonwch **CV** mewn unrhyw fformat (uchafswm o 3 tudalen) ac enwau **2 berson** a all ddarparu **geirdaon** (i gysylltu â nhw ar ôl penodi).



I gyd-fynd â'ch CV, atebwch y **tri** chwestiwn hyn os gwelwch yn dda:

- 1. Sut ydych chi'n bodloni manyleb y person?**
- 2. Beth am y rôl sydd o ddiddordeb i chi, a pham nawr?**
- 3. Pa ddarllen, gwyllo neu wrando perthnasol ydych chi'n ei wneud ar hyn o bryd?**

Yn ymateb, gan ddefnyddio **un** o'r fformatau hyn:

- **Cynnig ysgrifenedig (uchafswm o 1000 o eiriau)**
- **Ffilm (uchafswm o 7 munud)**
- **Recordiad sain (uchafswm o 7 munud)**
- **Gludwaith gweledol neu ddarluniad***

*Rhowch ffotograff digidol o'ch gludwaith/darluniad neu ddolen WeTransfer i'ch recordiad sain neu'ch ffilm gan nad oes modd i ni dderbyn cyflwyniadau ffisegol trwy'r post.

Cwblhewch ein ffurflen **Monitro Cyfle Cyfartal**. Bydd y ffurflen hon yn cael ei gweld ochr yn ochr â'ch cais a bydd ar gael i'r panel dethol.

E-bostiwch eich **CV**, eich **geirdaon** a'ch **ymatebion** i'r cwestiynau i info@dasharts.org gan ddefnyddio 'Cais Cyfarwyddwr Gweithredol' fel y pwnc.



Chwarae fideo laith
Arwyddion Prydain (BSL)

Holi ac Ateb

Cymerwch eich amser i ddarllen y pecyn recriwtio hwn. Os oes gennych chi unrhyw gwestiynau ynghylch y rôl hon, e-bostiwch ein tîm ar: info@dasharts.org gan ddefnyddio, 'Cwestiynau Cyfarwyddwr Gweithredol' ym mhennawd y pwnc.

Bydd adran **Holi ac Ateb** penodedig ar gael ar ein gwefan ar gyfer ymholiadau ynghylch rôl y Cyfarwyddwr Gweithredol. Bob wythnos byddwn yn diweddarau'r cynnwys mewn ymateb i'r cwestiynau sy'n cael eu derbyn, felly dewch yn ôl yn aml.

Bydd Heather Peak, Prif Swyddog Gweithredol/ Cyfarwyddwr Artistig hefyd ar gael am **sgwrs gyfrinachol 30 munud** (drwy Zoom neu dros y ffôn). Mae hwn yn gyfle i siarad am y rôl, dysgu am DASH a gofyn cwestiynau.

I archebu sesiwn, e-bostiwch hi yn uniongyrchol ar heather@dasharts.org gyda 'Sgwrs Gyfrinachol' ym mhennawd y pwnc.

Diolch a phob lwc!



Chwarae fideo laith
Arwyddion Prydain (BSL)

Y Broses Gyfweld

Cyfweliadau Cam 1: Dydd Mawrth 1 Hydref,
ar-lein (20 munud)

Cyfweliadau Cam 2: Dydd Iau 10 Hydref,
wyneb yn wyneb (45 munud)
yn Oriel Ikon, Birmingham

- Os cewch eich dewis ar gyfer y cyfweliadau rownd gyntaf, byddwch yn cael gwybod erbyn dydd Mercher 18 Medi.
- Mae'r broses yn cynnwys dau gam o drafodaethau panel.
- Bydd y panel yn cynnwys 3-4 o bobl o DASH.
- Darperir y cwestiynau 1 wythnos o flaen llaw ar gyfer pob cam.
- Ar gyfer cam 2, gofynnir i chi roi cyflwyniad.
- Bydd pecyn gwybodaeth yn cael ei anfon at ymgeiswyr cyn cyfweliadau cam 2 i sicrhau eu bod yn gyfforddus ac yn gyfarwydd â'r teithio a'r lleoliad.
- Cysylltwch â ni os oes unrhyw broblemau o ran dyddiadau'r cyfweliadau.
- Rhowch wybod i ni am unrhyw ofynion hygrychedd ychwanegol.
- Bydd adborth yn cael ei roi i bob ymgeisydd ar gais.
- Bydd penderfyniadau'n cael eu gwneud ddydd Llun 14 Hydref.
- Dyddiad cychwyn yr ymgeisydd llwyddiannus: Ar unwaith.



Chwarae fideo laith
Arwyddion Prydain (BSL)

Pethau Pwysig

Mae DASH yn sefydliad y celfyddydau gweledol a arweinir gan bobl ag Anableddau ac mae ein gwerthoedd yn seiliedig ar gyfle cyfartal a'r Model Cymdeithasol o Anabledd. Er mwyn cynnal ein hymrwymiad i wir gael ein harwain gan bobl ag Anableddau, **mae'r rôl hon ar agor i ymgeiswyr anabl, niwrowahanol a B/byddar yn unig**, gan y bydd eu profiad byw a'u dealltwriaeth yn ein galluogi i gyflawni'n well ein nodau o greu cyfleoedd i artistiaid anabl ddatblygu eu hymarfer creadigol.

Ar gyfer y cyfle hwn, rydym hefyd yn annog ac yn **blaenoriaethu** ceisiadau gan bobl sy'n wynebu'r rhwystrau mwyaf i gael mynediad at yrfaeodded yn y celfyddydau. Mae hyn yn cynnwys ffocws ar y rhai y mae eu gofynion mynediad yn llai tebygol o gael eu bodloni mewn mannau eraill a'r rhai sy'n profi rhwystrau hiliol a dosbarthol croestoriadol.

Mae DASH yn gyflogwr cyfleoedd cyfartal. Rydym yn croesawu ceisiadau gan bob unigolyn cymwys perthnasol beth bynnag ei oedran, rhywedd, cyfeiriadedd rhywiol, crefydd, cenedligrwydd neu darddiad ethnig, anabledd, statws priodasol neu feichiogrwydd.

Mae DASH wedi ymrwmo i ddiogelu a lles oedolion, plant a phobl ifanc ag anghenion gofal ac mae'n disgwyl i'w aelodau staff a'i wirfoddolwyr rannu'r ymrwymiad hwn.

Mae gwiriad DBS, naill ai manwl neu sylfaenol, yn amodol ar eich rôl benodol, yn ofynnol ar gyfer pob swydd yn DASH.

Os oes gennych chi ymholiadau ynghylch y broses DBS, mae pob croeso i chi holi.

Fel **Cyflogwr sy'n Hyderus o ran Anabledd** rydym wedi ymrwmo i:

- sicrhau bod ein proses recriwtio yn gynhwysol ac yn hygyrch
- gyfathrebu a hyrwyddo ein swyddi gwag
- gynnig cyfweiliad i bobl anabl sy'n bodloni isafswm y meini prawf ar gyfer y swydd
- ddisgwyl a darparu addasiadau rhesymegol
- gynorthwyo unrhyw gyflogai presennol sy'n datblygu anabledd neu gyflwr iechyd hirdymor, gan ei alluogi i barhau i weithio
- o leiaf un gweithgaredd a fydd yn gwneud gwahaniaeth i bobl anabl

Hysbysiad data personol y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR):

Yn ystod ein proses recriwtio, mae DASH yn casglu ac yn prosesu data personol sy'n ymwneud ag ymgeiswyr swyddi. Rydym wedi ymrwmo i fod yn dryloyw ynghylch sut rydym yn defnyddio data i fodloni ein rhwymedigaethau diogelu data. Byddwch yn ymwybodol y byddwn ni'n rhannu'r data personol rydym yn ei dderbyn gennych chi yn eich cais â'r panel sy'n llunio'r rhestr fer a'r panel cyfweld. Bydd mynediad yn cael ei gyfyngu i'r rhai sy'n rhan o'r broses recriwtio.



Chwarae fideo laith
Arwyddion Prydain (BSL)

Credydau Delweddau



Tudalen 2: Portread o artist Heather Peak
Credyd delwedd: Charles Emerson



Tudalen 9: 'Trust Exercise'
Credyd delwedd: Thomas Oscar Miles Photography



Tudalen 3: 'Are You Comfortable Yet?' gan Anahita Harding
Credyd delwedd: Ayesha Chouglay



Tudalen 11: 'Semantically Satiating Dada' gan Luke 'Luca' Cockayne



Tudalen 4: 'Fishwives Revenge' gan Alex Billingham
WAIWAV 2022 yn Oriel Tate St Ives



Tudalen 15: 'Let them eat cake' gan Caroline Cardus

DASH



Supported using public funding by
**ARTS COUNCIL
ENGLAND**



**Funded by
UK Government**



Art Fund_

PLUS TATE NETWORK

